**(HCC 787)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9.00am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Iau 2 Tachwedd 2017**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John Davies, Illtud Dunsford, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

**Tîm Rheoli o Eitem 6:** Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu:--

- 2 Medi 2017 – cafwyd cyflwyniad gan y Cadeirydd yn Uwch-gyngor Undeb Amaethwyr Cymru, ac yna bu'n ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- 11 Medi 2017 – Cyfarfod o Lywodraeth Cymru ynghylch Brexit.
- Cyfarfod Ymgynghorol Brexit Prif Weinidog Cymru
- 7 – 9 Hydref 2017 – Bu'r Cadeirydd yn Sioe Fasnach Anuga.
- 9 Hydref 2017 – Bu'r Cadeirydd a Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant yn Nerbyniad Cymdeithas yr Arwerthwyr Da Byw (LAA) yn Nhŷ'r Arglwyddi, Llundain.
- 12 Hydref 2017 – Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu HCC.
- 13 Hydref 2017 – telegynhadledd ddiweddaru'r Bwrdd. Cafodd y cyfarfod dderbyniad da gan y Bwrdd a byddai'n cael ei gynnal bob deufis o hyn ymlaen.
- 19 Hydref 2017 – Roedd y Cadeirydd ar banel o siaradwyr a fu'n trafod dyfodol ffermio tir glas ôl-Brexit yng Nghynhadledd Flynyddol Ffederasiwn Cymdeithasau Tir Glas Cymru. Yr un diwrnod, cyfarfu'r Cadeirydd â'r

grŵp “Merched Mewn Amaeth Cymru” a bu’n siarad am swyddogaeth HCC.

- 25 Hydref 2017 – Bu’r Cadeirydd mewn cyfarfod o Ford Gron Brexit Ysgrifennydd y Cabinet.
- 27 – 28 Hydref 2017 - Bu'r Cadeirydd a Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau’r Diwydiant yn cynrychioli HCC yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas y Cyflenwyr Cig Annibynnol (AIMS).

Diolchodd y Cadeirydd i’r Bwrdd am fynychu’r cyfarfod a gynhaliwyd yn HCC ddydd Mercher 1 Tachwedd 2017 er mwyn ystyried a gweithredu ynghylch y dogfennau Corfforaethol a ganlyn:-

Gweledigaeth a Chyfeiriad Strategol drafft HCC hyd at 2025
Cynllun Corfforaethol HCC 2018 / 2021

Yn dilyn trafodaeth fanwl cytunwyd bod cynnwys y ddogfen Weledigaeth hyd at 2025 yn briodol ond bod angen ychydig o waith ychwanegol ar agweddau cyflwyniadol y ddogfen, yn enwedig o ran uchelgais a chyfeiriad y diwydiant.

Byddai’r dogfennau Gweledigaeth a Chynllun Corfforaethol ar gael i’w trafod yn ystod telegynhadledd mis Rhagfyr.

Yn ystod y cyfarfod, rhoddwyd gwybodaeth hefyd i’r Bwrdd am y Fforwm Holi ac Ateb ynghylch yr Ardoll a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2017 (Gweler Eitem 6e).

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau ganOgwen Williams.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Ni chafodd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau eu nodi ar gyfer y cyfarfod.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Medi 2017 (HCC 776)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o’r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Medi 2017 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Adolygiad o Ystodau Pwysau Ŵyn Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ)*

Nodwyd bod yr ymgynghori ar waith ac mai’r dyddiad cau ar gyfer adborth oedd 31 Rhagfyr 2017.

Câi'r Bwrdd glywed canlyniad yr uchod yn ystod cyfarfod 11 Ionawr 2018.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. *<u>Adroddiad Gweithgareddau (HCC 777)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd bod yr Adroddiad Gweithgareddau wedi ei addasu er mwyn cynnwys penawdau cyllideb yn unol â'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

***<u>Cyfathrebu</u>***

Cafodd sylw o dan Eitem 6e – Digwyddiadau i ddod.

***<u>Datblygu'r Diwydiant</u>***

*<u>Rhaglen Llywodraeth Cymru: Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig 2014 – 2020)</u>*

Roedd HCC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff y diwydiant mewn perthynas â datblygu prosiectau defaid a chig eidion sy'n berthynol i Welliant Genetig, Iechyd Anifeiliaid ac Effeithlonrwydd Cig Eidion fel rhan o'r Fenter Strategol Amaethyddol (SI).

Nodwyd bod HCC wrthi'n cynllunio ar gyfer cyllido'r prosiectau uchod o dan yr SI hyd at £9m dros gyfnod o bum mlynedd.

Cadarnhawyd na fyddai unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Gyswllt Ffermio yn cael ei ddyblygu.

Câi'r ceisiadau eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried maes o law.

*<u>Cynghrair Gwneud Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth (RUMA).</u>*

Roedd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant wedi mynychu Cynhadledd Flynyddol RUMA yn Llundain a oedd â'r thema "Ymwrthedd i Wrthfiotigau – Wynebu Her AMR".

Roedd un o sesiynau allweddol y diwrnod yn cynnwys cyhoeddi amcanion sector-benodol RUMA i leihau, gwella neu ddisodli'r defnydd o wrthfiotigau.

Roedd y targedau a bennwyd ar gyfer y sector cig coch fel a ganlyn:-

***Y Sector Defaid***

- Gostyngiad o 10% o'r naill flwyddyn i'r llall yn y defnydd beunyddiol o wrthfiotigau 2016 – 2021
- Cynnydd blynyddol o 5% ym mrechlynnau clwy'r traed ac erthylu 2016 – 2021
- Defnyddio 10% yn llai o wrthfiotigau erbyn 2020
- Haneru’r defnydd o wrthfiotigau blaenoriaethol erbyn 2020.

***Y Sector Cig Eidion***

- 10% o ostyngiad yn y defnydd o wrthfiotigau neu lefel y defnydd o PCU 10mg erbyn 2020 – pa un bynnag yw’r isaf
- Haneru’r defnydd o wrthfiotigau blaenoriaethol erbyn 2020
- Cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall mewn brechlynnau ar gyfer clefydau resbiradol
- Ffordd safonol o gasglu data a chyfrifo’r defnydd o wrthfiotigau ar ffermydd.

*Derbyniad Cymdeithas Ysgoloriaeth HCC*

Nodwyd y cynhelid derbyniad ar y prynhawn dydd Llun yn y Ffair Aeaf i ddathlu pen blwydd y Gymdeithas yn ugain oed. Byddai’r digwyddiad hefyd yn gyfle i godi proffil yr Ysgoloriaeth. Gwahoddwyd y Bwrdd i fynychu’r digwyddiad.

***Datblygu’r Farchnad***

Roedd HCC wedi datblygu amrywiaeth o fideos â ryseitiau yn defnyddio Cig Eidion Cymru PGI, Cig Oen Cymru PGI a phorc. Câi’r fideos eu rhannu ar wefan Defnyddwyr HCC a sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ystod y misoedd nesaf.

*Cynnig HCC ar gyfer Ariannu Rhaglen Datblygu Allforion Ehangach*

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi £1.5 miliwn i HCC ar gyfer Rhaglen Datblygu Allforion Ehangach dros dair blynedd, gan ddechrau ym mis Ebrill 2018.

Gwnaed y cyhoeddiad yn ystod derbyniad HCC yn Anuga yn Cologne, sef sioe fasnachu bwyd fwyaf y byd, ddydd Llun 9 Hydref 2017.

Byddai’r arian yn hanfodol o ran cadw marchnadoedd hollbwysig yn Ewrop yn ystod y tair blynedd nesaf o ansicrwydd, a byddai hefyd o gymorth wrth ddatblygu marchnadoedd newydd y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd.

b. *I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI 2017*

Rhoddodd Rheolwr Datblygu'r Farchnad gyflwyniad ar ymgyrch HCC ar gyfer Cig Eidion Cymru PGI yn 2017.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys un o chwaraewyr rygbi rhyngwladol Cymru, Dan Lydiate, i hybu bwyta'n iach a byddai HCC yn defnyddio hysbysebion yn yr awyr agored yng Nghaerdydd yn ystod gemau rhyngwladol yr hydref. Yn ogystal, roedd yr ymgyrch yn dangos sut gall diet naturiol yn cynnwys cig coch wella iechyd.

Cynhelid cystadleuaeth ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng tudalen HCC ar Facebook ar gyfer Cig Eidion Cymru a Twitter. Y wobr fyddai tocynnau i wylio gêm olaf Cymru yn yr hydref, yn erbyn De Affrica.

c. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad yr hydref (HCC 778)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Medi 2017 (HCC 779)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Roedd yr incwm ardoll tan 30 Medi 2017 yn £181K yn is na'r gyllideb am y cafodd llai o anifeiliaid eu lladd yng Nghymru nag yng ngweddill gwledydd Prydain. Roedd y gwariant yn fwy na'r gyllideb yn ystod y chwe mis cyntaf, ond oddi mewn i'r gyllideb flynyddol.

Er mwyn cael gwybodaeth bellach am y sefyllfa byddai rhagolygon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 2017 / 2018 yn cael eu paratoi i'w hystyried mewn cyfarfod cyn y gynhadledd ar 8 Tachwedd 2017.

*Nodyn ôl-gyfarfod*

Paratowyd rhagolygon a chawsant eu trafod a'u cymeradwyo gan y Bwrdd ar 8 Tachwedd 2017. Roedd y rhain yn dangos colled o £19K ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 2017 / 2018.

e. *Digwyddiadau i ddod i gynnwys diweddariad o bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf 27 – 28 Tachwedd 2017 (HCC 780)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Roedd y papur ymwneud â chyfarfodydd o'r undebau amaethyddol a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Roedd croeso i aelodau'r Bwrdd fynychu'r cyfarfodydd hyn pe baent yn dymuno gwneud hynny.

***Fforwm Holi ac Ateb Bwrdd HCC gyda Thalwyr Ardoll – Dydd Iau 9 Tachwedd 2017***

Byddai Briff ym cael ei baratoi a'i anfon trwy ebost at y Bwrdd yn dilyn sesiwn adolygu ddydd Mercher 8 Tachwedd 2017.

Câi'r Fforwm ei ffrydio'n fyw trwy gyfrwng Facebook.

***Cynhadledd Flynyddol HCC – Dydd Iau 9 Tachwedd 2017***

Rhoddodd y Rheolwr Cyfathrebu ddiweddariad am y trefniadau ar gyfer yr uchod.

***Y Ffair Aeaf – Dydd Llun 27 – Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2017***

Byddai presenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf yn dechrau gyda'r brecwast blynyddol i'r diwydiant a gynhelid ddydd Llun 27 Tachwedd 2017 yn Hafod a Hendre. Byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn bresennol.

O ran y defnyddwyr, roedd trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer gweithgareddau newydd, gan gynnwys creu cinio Nadolig â thri chwrs ac yn defnyddio cynnyrch o Gymru yn unig. Byddai HCC yn cydweithio â Jason Hughes o Uwch-dîm Cymdeithas Goginio Cymru a Phrif Ben-cogydd Chateau Rhianfa ar Ynys Môn..

Byddai HCC hefyd yn arddangos cynnyrch gorau Cymru a byddai un o sêr y cyfryngau cymdeithasol, Chris Roberts o Gaernarfon, yn coginio Cig Oen Cymru PGI ar *asado*.

Ar gyfer cynhyrchwyr, byddai'r Tîm Datblygu'r Diwydiant yn cynnig cyngor ynghylch ateb gofynion y farchnad, meincnodi a gwelliant genetig. Yn ogystal byddai cyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth garcas.

## 7. **Pwyllgorau HCC**

*Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu - I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Iau 12 Hydref 2017 (HCC 781)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

*I dderbyn cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Hydref 2017 (HCC 782)*

Gosodwyd y cofnodion drafft gerbron y Bwrdd er gwybodaeth. O gofio bod y Pwyllgor yn cynnwys aelodau allanol, byddai gofyn i'r cofnodion gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar 29 Ionawr 2018 ac yna eu rhannu â'r Bwrdd er mwyn eu derbyn.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar y Llwyfan Dwysáu Cynaliadwy (SIP) gan Dr Prysor Williams, Prifysgol Bangor.

Nodwyd y câi enwebiadau ar gyfer Aelodau allanol ychwanegol i'r Pwyllgor eu cyflwyno i'r Bwrdd eu hystyried yn y delegynhadledd ym mis Rhagfyr 2017.

*Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata - I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Mawrth 17 Hydref 2017 (HCC 783)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

Bu'r cyfarfod yn canolbwyntio yn bennaf ar Farchnata HCC a chafodd friff llawn am waith HCC hyd yma yn hybu brandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI.

Awgrymwyd amryw o weithgareddau er mwyn cyrraedd y defnyddiwr. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r rhain gan y Weithrediaeth wrth gynllunio ar gyfer y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2018 / 2019.

*Y Pwyllgor Gwaith Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi – I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod cyntaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Mercher 25 Hydref 2017*

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor:-

Roedd y cyfarfod cyntaf yn amlinellu sut y byddai'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith a'r targedau a bennwyd gan Llywodraeth Cymru yn ei Fframwaith Iechyd Anifeiliaid.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan gynrychiolwyr o'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) ynghylch data gwyliadwriaeth a chondemnio. Hefyd, rhoddwyd cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Rhaglen i Ddileu BVD.

Fel canlyniad i'r cyfarfod, gwneid adolygiad i ganfod a yw'r aelodaeth yn adlewyrchu ehangder gwaith y Pwyllgor. Yn benodol, byddai angen ystyried cynrychiolaeth gan Gymdeithas yr Arwerthwyr Da Byw (LAA).

*Y Pwyllgor Monitro'r Cynllun Gweithredu Strategol*

Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Adroddiad Monitro Blynyddol Diwydiant Cig Coch Cymru 2016 / 2017 a chofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Medi 2017 wedi cael eu dosbarthu ynghynt.

Cafodd y naill ddogfen a’r llall eu derbyn gan y Bwrdd.

Câi’r adroddiad ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet i’w ystyried ynghyd â phapur yn amlinellu cyngor ac argymhellion y Pwyllgor.

Yn amodol ar gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet, cyhoeddid yr adroddiad gan HCC a Llywodraeth Cymru. Rhagwelwyd y byddai hynny’n digwydd ym mis Rhagfyr 2017.

8. **I ystyried Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill ar gyfer 2018 / 2019 (HCC 784)**

Cyflwynwyd yr uchod gan y Prif Weithredwr.

Yna cafwyd trafodaeth o amgylch y bwrdd ynglŷn â'r hinsawdd wleidyddol bresennol mewn perthynas ag ymadael â’r UE a’r ansicrwydd a’r heriau sylweddol i gynhyrchwyr da byw a phroseswyr. Yn ogystal, trafodwyd y cynnydd a wnaed gan y Byrddau Ardoll ynghylch Mamwladoli Ardoll.

Serch hynny, roedd yn glir y byddai rhan HCC yn cefnogi’r diwydiant cig coch yn hanfodol bwysig yn y dyfodol er mwyn datblygu sector proffidiol a chynaliadwy. Er mwyn i HCC allu gyflawni ei gyfrifoldebau ar ran y diwydiant, byddai’n rhaid iddo gael cyllid digonol.

Fodd bynnag, ac ystyried yr uchod, cytunodd y Bwrdd ag argymhelliad y Weithrediaeth na fyddai newid yn y Cyfraddau Ardoll a’r Costau Adfer ar gyfer 2018 / 2019:-

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2018 / 2019** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm, y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi’i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi’i dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| **Moch** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2018 / 2019** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi’i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

Câi'r argymhelliad ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, sydd â'r cyfrifoldeb llawn am bennu a chodi cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru.

9. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Rhoddwyd y sefyllfa ddiweddaraf i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr:-

Parhaodd cyfarfodydd a thelegynhadleddau rhwng yr holl bobl briodol ac roedd y drafodaeth yn bositif.

Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith hwn er mwyn cael y canlyniad gorau i HCC.

10. **<u>I gael papur am swyddogaeth a dyletswyddau Cyfarwyddwyr Anweithredol HCC (HCC 785)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a rhoddwyd crynodeb ohono i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr.

Roedd y Bwrdd wedi cael gwybodaeth am ei swyddogaeth a'i ddyletswyddau fel Cyfarwyddwyr Anweithredol yn eu llythyrau penodiad ac Amodau a Thelerau gan Ysgrifennydd y Cabinet. Cafodd y pwnc hwn sylw hefyd yn rhaglen sefydlu'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ym mis Ebrill 2017. Fodd bynnag, ar ôl chwe mis yn eu swyddi, roedd yn amserol i atgoffa'r Bwrdd am ei ddyletswyddau ac o'r herwydd cytunwyd i lunio papur yn cynnwys y prif gyfrifoldebau.

Nodwyd prif ddyletswyddau'r Cyfarwyddwyr Anweithredol:-

Dylai Cyfarwyddwyr Anweithredol ofyn am ddigon o wybodaeth i gyflawni eu dyletswyddau yn briodol tra bod yn ymwybodol o unrhyw wrthdrawiadau buddiannau posibl ac o beidio â gadael i'w hymglymiad ymyrryd â gweithredu beunyddiol HCC.

Yn unol â'r hyn a amlinellir yn Nhelerau ac Amodau Aelodau Bwrdd HCC a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet, swyddogaethau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Anweithredol HCC yw::

- Cefnogi cyflawni prif argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o HCC (Hydref 2016);
- Cefnogi cyflawni Gweledigaeth 2020: Cynllun Gweithredu Strategol i'r Diwydiant Cig Coch yng Nghymru
- Mynychu Cyfarfodydd y Bwrdd fel y bo'n briodol;
- Cyfrannu at ddatblygu Cynllun Corfforaethol HCC a Chynllun Gweithredol HCC;
- Gwneud yn siŵr fod cyfundrefnau ar waith i fonitro effeithiolrwydd HCC;
- Cynnal Llywodraethu Corfforaethol cadarn;
- Pan fo hynny'n briodol, cyfathrebu a mynychu cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru; a
- Chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo barn HCC ymhlith y cyhoedd.

**Gwerthusiad o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol**

Yn unol â rhwymedigaethau HCC i arddangos cywirdeb, tryloywder a llywodraethiant cadarn, byddai perfformiad y Bwrdd yn ei gyfanrwydd a pherfformiad unigol ei Aelodau yn cael ei asesu a'i werthuso. Byddai hyn yn cael ei wneud gan y Cadeirydd yn ystod 2018 / 2019.

11. **<u>I gael cyflwyniad ar "Cig wedi ei Feithrin" – Illtud Dunsford</u>**

Rhoddwyd cyflwyniad llawn gwybodaeth gan un o Aelodau'r Bwrdd, Illtud Dunsford, ar gig wedi ei feithrin, sef cig sy'n cael ei gynhyrchu o gelloedd unigol anifeiliaid.

Cafwyd trafodaeth wedyn ynghylch sut y gallai'r dechnoleg hon gael ei defnyddio i ddiwallu'r protein sydd ei angen ar boblogaeth gynyddol y byd. Hefyd, buwyd yn trafod a fyddai'r diwydiant cig coch yn ystyried y dechnoleg hon yn fygythiad i'w fodolaeth.

Gyda golwg ar y drafodaeth, ystyrid a oedd y dechnoleg hon yn gwrthdaro â HCC ac os oedd, sut gellid rheoli hynny.

Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr drafod y mater ymhellach ar ôl y cyfarfod.

12. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

Nid oedd unrhyw fater arall.

13. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**

Telegynhadledd ddiweddaru'r Bwrdd – dyddiad yn Rhagfyr i'w gadarnhau.

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 11 Ionawr 2018.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**